CYFARFOD

# Cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 17 Mehefin 2019

Cofnod o gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar 17 Mehefin 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf: 6 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 6 Gorffennaf 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Ymddiheuriadau

Sesiwn y bore

Sesiwn y prynhawn

Brexit a’r Gymraeg

Dynodi Ysgolion

Unrhyw fater arall

# Yn bresennol

- Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Marian Thomas, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Rhodri Llwyd Morgan, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Dewi Jones, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Angharad Lloyd-Williams, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Rhian Huws-Williams, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Bethan Webb, Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- [ ] Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- [ ] Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- [ ] Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- [ ] Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- [ ] Adran Addysg, Llywodraeth Cymru
- [ ] Is-adran Ymadael â’r UE a Strategaeth, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- [ ] Is-adran Ymadael â’r UE a Strategaeth, Llywodraeth Cymru
- Meirion Prys Jones, Arweinydd Prosiect Ymchwil ar Gategoreiddio Ysgolion

## Ymddiheuriadau

- Gwion Lewis, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Owen Derbyshire, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Enlli Thomas, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Simon Brooks, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Gwynedd Parry, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

## Sesiwn y bore

Yn ystod sesiwn y bore, a gynhaliwyd gyda swyddogion, cafwyd:

1. croeso a diweddariad gan Bethan Webb ar y cynnydd gyda strategaeth *Cymraeg 2050*, gan gynnwys y sefyllfa o ran addysg, y continwwm, y cwricwlwm newydd a rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
2. cyflwyniad ar y cwricwlwm drafft a’r Gymraeg yng nghyd-destun Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu gan swyddog o’r Adran Addysg, gyda sgwrs i ddilyn.

**PWYNT GWEITHREDU**

Trefnu i swyddog Safonau Proffesiynol Addysg fynychu un o gyfarfodydd y dyfodol er mwyn trafod yr hyn sy’n cael ei wneud i ddatblygu’r gweithlu addysg o safbwynt y Gymraeg.

3. cyflwyniad byr gan swyddog ar ddadbacio “hybu a hyrwyddo’r Gymraeg” – oherwydd diffyg amser ni chafwyd trafodaeth lawn am y eitem hon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Sesiwn y prynhawn

# Eitem 1 – Brexit a'r Gymraeg

Croesawodd y Gweinidog bawb i sesiwn y prynhawn.

Cafwyd cyflwyniad gan swyddogion o Is-adran Ymadael â'r UE a Strategaeth Llywodraeth Cymru ar effeithiau posibl Brexit yng Nghymru – gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

[Casglwyd y dogfennau a'r diagramau ar ddiwedd y cyflwyniad]

Ar ôl y cyflwyniad, nododd y Gweinidog fod paratoadau trylwyr ar y gweill, ond bod Brexit heb gytundeb yn bryder mawr. Ychwanegodd fod y cyflwyniad yn rhoi syniad o'r gwaith sy'n digwydd yn y cefndir yn Llywodraeth Cymru nad yw'n cael ei weld yn gyhoeddus.

Nododd y Gweinidog ymhellach y byddai'r cyfarfod nesaf fis Hydref yn canolbwyntio ar yr economi a'r Gymraeg, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y berthynas rhwng y ddau yn hollbwysig.

Dywedodd y Gweinidog ei bod am ddod yn ôl at Brexit yng nghyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

# Eitem 2 – Dynodi Ysgolion

Ar ôl i'r Gweinidog ymadael, cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth ynghylch newid y ffordd o ail ddynodi ysgolion, dan arweiniad Meirion Prys Jones.

Mynegodd Meirion ei fod am weld system sy'n galluogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm drwy ail ddynodi, gyda'r targed yn y CSGA yn gyrru'r Awdurdod Lleol i ail ddynodi. Nododd fod elfennau o hyn yn eu lle eisoes. Roedd am i'r system fod wedi'i diffinio a bod yn eglur i bawb, ac roedd angen felly iddi fod yn syml.

Nododd Aelod fod angen asio'r gwaith dyondi â'r cwricwlwm newydd. Yna

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cafwyd trafodaeth ar fanteision ac anfanteision cael 5 categori o'i gymharu â 3 chategori. Cytunodd Meirion i rannu'r categorïau ag Aelodau'r Cyngor Partneriaeth cyn mynd allan i ymgynghori yn eu cylch.

**PWYNT GWEITHREDU**

Rhannu manylion y categorïau gydag Aelodau'r Cyngor Partneriaeth cyn cynnal yr ymgynghoriad.

## Eitem 3: Unrhyw fater arall

Holodd Aelod a fyddai modd cael rhestr o uchafbwyntiau'r cyfnod diwethaf o ran hybu a hyrwyddo.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 17 Mehefin 2019** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-or-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-17-mehefin-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.